CYNGOR CYMDEITHAS LLANGOEDMOR COMMUNITY COUNCIL

**Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Llangoedmor a gynhaliwyd yn yr Hen Ysgoldy, Llangoedmor nos Lun 2 Medi 2019**

Presennol: Cadeirydd y Cyng K Symmons. Cyngr: Iwan Davies, Hywel Davies, Steve Kings, Mrs Laura Holder, Mrs Nicky Redmond, Mrs Amanda Edwards

CS Clive Davies

Clerc

**1. Croeso ac Ymddiheuriadau**

Croesawodd y Cadeirydd y rhai a oedd yn bresennol i'r cyfarfod. Nid oedd dim ymddiheuriadau wedi dod.

**2. Datgelu Buddiannau Personol**

Dim.

**3. Materion Personol**

Llongyfarchwyd y Cadeirydd ar ddod yn dad-cu.

**4. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**

Cynigiodd y Cyng Mrs A Edwards y dylid derbyn y cofnodion fel cofnod cywir. Eiliwyd gan y Cyng S Kings, a chytunwyd.

**5. Materion yn Codi**

Dywedodd y CS Clive Davies fod y caban BT wrth groesfan Croes-y-llan yn dal i gael ei drwsio. Dywedodd y byddai Cyngor Sir Ceredigion (CSC) yn cynnal arolwg o gyflymdra flwyddyn nesaf a gallai materion cyflymdra gael eu trafod bryd hynny.

.

**6. Ceisiadau Cynllunio**

*A190433 Bwthyn Garddwr, Llangoedmor*
Dymchwel yr ystafell wely a’r tŷ gwydr presennol, codi estyniad a thŷ gwydr newydd a gwaith cysylltiedig.
Roedd y Cyngor Cymuned yn cefnogi’r cais.

*A190168 Tir oddi ar y B4570 Llangoedmor*
Ailgyflwyno cynlluniau.
Roedd y Cyngor Cymuned yn cefnogi’r cais.

*Cynlluniau Lle*
Dywedodd y CS Clive Davies y byddai’n mynd i gyfarfod ar 9.9.19. Roedd yr holl wybodaeth ar gyfer y Cynllun nawr yn cael ei rhoi ynghyd.

*LDP Ymgynghori ar gyfer safleoedd ymgeisio ychwanegol yn cau ar 12.9.19*
Dywedodd mai un safle’n unig oedd wedi ei gyflwyno ar gyfer Llechryd a’i fod yn pryderu, o gofio hyd y cynllun, na fyddai hwn yn bodloni anghenion tai lleol.
GWEITHREDU: Cyflwyno’r map safle i bob Cynghorydd GAN: Y Clerc

**7. Adroddiad y Cynghorydd Sirol**

Dywedodd y CS Clive Davies y byddai pont Llechryd ar gau o 16.9.19 i 3.11.19, ac nid fel yr hysbyswyd gynt. Byddai'r gwaith yn sicrhau bod y bont yn ddiogel. Roedd wedi mwynhau'r Parti yn y Parc a diolchodd i’r trefnwyr am eu hymdrechion. Roedd yn pwyso am gyfarfod arall o'r grŵp gwytnwch i gadw’r momentwm. Roedd ef i gael ei benodi'n ‘Hyrwyddwr Digidol’ ar gyfer CSC a’i gadarnhau yn Gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu. Dywedodd fod swyddogion yn cadw llygad ar y Datblygiad Un Blaned (OPD) ym Mhen-coed a chadarnhaodd fod yr OPD yng Nghwm-coed wedi ei gymeradwyo o’r diwedd..

Diolchwyd i’r CS Clive Davies am ei amser, yna gadawodd y cyfarfod.

**8. Cyllid a Gweinyddu**

| | Talai | Am | banc | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 5.08.19 | HMRC | | 71.00 | | |
| | Mr K Symmons | Lwfans y Cadeirydd | 350.00 | | |
| | Arjay Factors | Sachau sbwriel | 8.71 | | |
| | S E Davies | Cyflog | 286.92 | | |
| | S E Davies | Swyddfa yn y cartref 25 postio 10.02 | 35.02 | | |
| | Playsafety Ltd | Archwilio’r Man Chwarae | 145.20 | | |
| | Neuadd y Cwrwgl Llechryd | Hurio’r Ystafell | 12.00 | | |
| | Mr E Rees | Glanhau’r bloc toiledau / cysgodfannau bws | 200.00 | | |
| 18.8.19 | Dwr Cymru Cyf | Bloc toiled dŵr | 453.57 | CD | Talwyd fel bil terfynol |
| | LAS Recycling Ltd | Bin olwynion | 21.84 | DU | |
| 2.09.19 | S Davies | Cyflog | 286.92 | | |
| | HMRC | | 71.00 | | |
| | Swyddfa Archwilio Cymru | Archwilio Allanol 17/18 | 225.75 | | |
| | Mr E Rees | Sbwriel, toiledau a | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | chysgodfannau bws | 276.00 | |
| | E M I Jones | Cyfieithu (Tach 18 i Meh 19) | 280.00 | |
| | S Davies | Swyddfa yn y Cartref (25) a mapio (21.60) | 46.60 | |
| | HM Land Cofrestrfa Tir EM | Chwiliad Map | 4.00 | |
| **Gweddill fel yn adroddiad y banc ar 24 Gorffennaf 2019** | | 22693.7 | | |
| **Heb gynnwys sieciau heb eu cyflwyno** | | | | |
| | 64 | 0.20 | | Camddarllen gwirio |
| | | 0.20 | | |
| | | 0.20 | | |
| Gweddill adroddiad wedi'i gymhwyso | | 22693.50 | | 0.90 |
| | Llyfr arian parod Gweddill Agoriadol | 24555.88 | | |
| | Derbyniadau | 27.7 | | |
| | Taliadau | 1890.98 | | |
| | Gweddill Cau | 22692.6 | | |

*Diweddaru'r gyllideb hyd at 19 Gorffennaf wedi'i nodi.*
Cynigiwyd gan y Cyng S Kings, eiliwyd gan y Cyng I Davies a chytunwyd

*Contractau*
Porfa – Cytunwyd i hysbysebu plannu a gofalu am y blychau planhigion fel contract ar wahân.

Glanhau – derbyniwyd y contract a gynigiwyd.
Byddai'r ddau yn cael eu hysbysebu.
GWEITHREDU: Trefnu hysbyseb GAN: Y Clerc

*<u>Geiriad anghrefyddol</u> i gadarnhad Cynghorwyr i ymroi i faterion cymunedol*
Cytunwyd y byddai'r Cyng yn edrych ar eiriad gwahanol. Gohiriwyd yr eitem tan y cyfarfod nesaf.
GWEITHREDU: gweithredu GAN: Y Clerc

*<u>Diwedd blwyddyn</u>*
*Archwiliad Amodol*
Roedd yr archwilydd allanol yn dweud bod angen mabwysiadu rheoliadau ariannol ar wahân. Nid oedd eu hymgorffori mewn rheolau sefydlog (fel yn llyfr glas y Cyngor) yn dderbyniol. Byddai'r Clerc yn cyflwyno rheoliadau ariannol drafft i'w mabwysiadu maes o law.
Nodwyd ôl-gynnwys cyfeirnod cofnodion.
GWEITHREDU: Adnewyddu rheoliadau ariannol a rheolau sefydlog GAN: Y Clerc.

*<u>Adroddiad bioamrywiaeth</u>*
Mae'n ofynnol i Gynghorwyr gyhoeddi adroddiad bio-amrywiaeth am dir sy'n eiddo iddynt erbyn 30 Medi. Roedd Clerc Cyngor Tref Caerfyrddin yn garedig iawn wedi darparu (drwy gangen Gorllewin Cymru o DSLCC), ffordd syml y gellid ei mabwysiadu. GWEITHREDU: Datblygu adroddiad GAN: Y Clerc

**9. Priffyrdd a Hawliau Tramwy Cyhoeddus**
*<u>Biniau</u>*
Nodwyd y gwaith gwych oedd yn cael ei wneud gan un o weithwyr CSC yn gwacau'r biniau ar y brifffordd. Fodd bynnag, cytunodd y Cyngor Cymuned fod angen tynnu sylw CSC at yr arfer gan drigolion Maesyderi o ddefnyddio biniau'r briffordd ar gyfer sbwriel tai.
GWEITHREDU: Cysylltu â CSC GAN: Y Clerc

Hen fin ar y cae chwarae
Cytunwyd i ofyn i LAS, pe bae'r bin yn cael ei osod wrth ymyl y bin olwynion, a fyddai'r cwmni'n fodlon mynd ag ef i ffwrdd. Nodwyd y byddid yn codi tâl am hyn.
GWEITHREDU: Cysylltu â LAS GAN: Y Clerc

Mynegwyd pryder ei bod yn ymddangos bod person neu bersonau'n byw mewn cwt ar ystâd yn y pentref.
GWEITHREDU: Cysylltu â Tai Ceredigion GAN: Y Clerc

**10. Amwynderau**

*<u>Bloc Toiledau</u>*

Dŵr

Roedd y bil dŵr diwethaf ar gyfer y bloc bôn ddwywaith y swm a ddisgwylid. Roedd y Cyng S Kings yn garedig iawn wedi bod yn ymchwilio i'r mater ac wedi dweud bod y mecanwaith i dynnu dŵr drwy'r 'urinals' wedi ei dynnu ymaith. Roedd ef wedi troi'r dŵr i'r urinals i ffwrdd, ac yn y cyfamser byddai'r Clerc yn gofyn i Mr E Rees dynnu dŵr drwy'r urinals â llaw pan fyddai'n glanhau ddwywaith yr wythnos. Byddai'r Cyng S Kings hefyd yn archwilio'r bloc mor aml ag y gallai i sicrhau ei fod yn cadw'n lân. Cytunwyd naill ai i ailosod mecanwaith tynnu dŵr neu ymchwilio i ddull arall i ddefnyddio llai o ddŵr.

GWEITHREDU: Ymchwilio i atebion posibl GAN: Y Clerc gyda chymorth y Cyng S Kings.

Gosod seston newydd

Roedd y plymwr gwreiddiol wedi methu â darparu dyfynbris. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn dweud wrtho nad oedd angen mwyach iddo wneud y gwaith ac i gysylltu â masnachwyr eraill eraill i gael dyfynbrisiau.

GWEITHREDU: Ymchwilio GAN: Y Clerc

*<u>Lle Chwarae</u>*

Archwiliad ROSPA – ni nodwyd dim byd o bwys yn ystod yr archwiliad.

Angorau ar goll ar bystion y gôl

Dywedodd y Cyng Mrs A Edwards fod yr angorau ganddi hi, ond roedd yn pryderu pe bae pystion y gôl yn cael eu gosod y byddai torri'r borfa yn mynd yn anodd. O gofio pwysau'r pystion, cytunwyd bod angen eu gosod a byddai'r contractiwr yn cael cais i dorri'r borfa o gwmpas y pystion yn hytrach na'u symud.

Gatiau

Roedd Mr E Rees eisoes wedi edrych ar ddefnyddio dulliau cau ac roedd y Clerc a'r Cyng S Kings wedi cysylltu ag ef.

<u>Roedd Mr Rees yn pryderu, lle nad oes caeadon ar y biniau ar y cae, fod gwastraff cartrefi a hyd yn oed gwastraff adeiladu yn cael eu rhoi ynddynt. Roedd wedi gweld gweithwyr busnes lleol yn gwacau sachau o sbwriel yn y biniau</u>.

GWEITHREDU: Cysylltu â'r busnes lleol i awgrymu iddo ddarparu biniau i'w gwsmeriaid GAN: Y Clerc

*<u>Ffiniau a chofrestru tir</u>*

Gyda chymorth caredig gan y Cyng G Wislocka o Landudoch, mae gan y Clerc fap yn barod i'w anfon i sicrhau pa dir (os o gwbl) sydd wedi ei gofrestru (gweler taliadau).

GWEITHREDU: Gwneud cais GAN: Y Clerc

Mae Cyngor Sir Penfro wedi dweud y bydd yn adolygu datblygiad posibl ar *Draeth Poppit* a fydd gobeithio yn cynnwys y bloc toiledau. Mae'n bwriadu gofyn i PCAP am gymorth ariannol. Mae Cyngor Cymuned Llandudoch yn dal i bwyso ar CSP i gadw'r bloc toiledau ar agor.

Penderfynwyd y byddai'r Clerc yn cael prisiau ar gyfer arwyddion 'dim baw cŵn' ac arwyddion 'CCTV', ac i ddirprwyo'r penderfyniad i brynu i'r Clerc gan drafod gyda'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd.
GWEITHREDU: Cael pris arwyddion GAN: Y Clerc

**11. Prosiectau'n parhau**

*Mainc ar gyfer yr Eglwys*
Cytunwyd i wahodd trigolion i awgrymu cynllun posibl, gyda thema leol.
GWEITHREDU: Hysbysebu GAN: Y Clerc

*Cynllun Gwytnwch*
Gweler Adroddiad y Cynghorydd Sirol.

**12. Digwyddiadau**

*Eisteddfod 2020*
Gofynnwyd i'r Clerc gael adborth am y presenoldeb yn y Parti
GWEITHREDU: Cysylltu â Phwyllgor yr Eisteddfod GAN: Y Clerc

*Gwasanaeth y Cofio - Dydd Sul 10 Tac (9.30 i 12.30)*
Y Clerc i weithio gyda'r Ficer ar drefn y gwasanaeth.
Awgrymwyd y gallai Pwyllgor y Parti drefnu lluniaeth ar ôl y gwasanaeth.

*Cynnau'r Goleuadau*
Y Cadeirydd i gysylltu â'r ysgol ynglŷn â dyddiadau posibl.

**13. Adroddiadau cyfarfodydd**
Dywedodd y Cadeirydd bod posibiliadau'n cael eu trafod ynglŷn â safle'r hen ysbyty.

**14. Gohebiaeth / + gohebiaeth e-bost**
Nodwyd
Eluned Morgan – AC Canol a Gorllewin Cymru – cylchlythyr

CSC – gwasanaethau atodol i glirio eira a gwasanaethau brys cysylltiedig eraill.

Diweddariad ynglŷn ag eiddo ym Maesyderi wedi dod drwy law'r CS Clive Davies

CSC: YNGLŶN AG: Ymgynghori ynghylch Strategaeth CDLl2 a Ffefrir
Ymgynghori ynghylch Safleoedd CDLl Ychwanegol Posibl
Cau 12 Medi 2019
Cynhadledd a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol Un Llais Cymru 05/10/2019
InTouch – Cylchlythyr trigolion Wales & West Housing Rhifyn 98

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru Adroddiad Effaith a Chyrhaeddiad 2018-19
UN LLAIS CYMRU SESIWN HYFFORDDIANT CANOLBARTH CYMRU

Diolch gan Ambiwlans Awyr Cymru am Grant

**15. Cyfnewid Gwybodaeth**

Awgrymodd y Clerc y gallai'r Cynghorwyr efallai ymweld â safle MD Recycling a'r cyfleustra bio dreuliwr ar yr un safle. Roedd y Cyngor wedi rhoi sylwadau ar faterion cynllunio ar gyfer y safle, a gallai dealltwriaeth fod yn fuddiol. Awgrymwyd efallai y byddai gan Gynghorwyr o'r Ferwig hefyd ddiddordeb mewn ymweliad safle.
GWEITHREDU: Cysylltu â CSC GAN: Y Clerc

**16. Dyddiad y cyfarfod nesaf - 7.10.19**

*Gan nad oedd dim busnes pellach i'w drafod, daeth y cyfarfod i ben am 8.50pm.*